



Economy & Enterprise  
Torfaen ~ inspiring business innovation

Economi a Mentergarwch  
Torfaen ~ hybu arloesi mewn busnes

Tanysgrifiwch i'n newyddion  
a'n digwyddiadau!  
[www.southwalesbusiness.co.uk](http://www.southwalesbusiness.co.uk)



# Torfaen Business Voice Llais Busnes Torfaen

## CHWEFROR 2019

 [www.twitter.com/TorfaenBizCymru](https://twitter.com/TorfaenBizCymru)

 [www.facebook.com/TorfaenEnterprise](https://www.facebook.com/TorfaenEnterprise)

 Torfaen Economy & Enterprise



## CYLLID BUSNES

### DIGWYDDIAD NESAF

Dydd Iau 21 Mawrth 2019

5:00PM

# LEADERS OF THE PACK...

**Awarded UK's Medium Practice of the Year 2018,**  
Green & Co have two main aims for their clients, to help them achieve their goals and to give proactive advice to minimise their tax bill.

 **Green&Co**  
Accountants and Tax advisors

For further information please contact a member of our team  
01633 871 122 | [mail@greenandco.com](mailto:mail@greenandco.com) | [www.greenandco.com](http://www.greenandco.com)

  
**WINNER**  
accountingexcellence  
Medium Practice  
of the Year  
2018

# Nodiadau'r Cadeirydd

Gan mai dyma rifyn cyntaf ein cylchlythyr yn 2019, hoffwn gymryd y cyfle i groesawu ein haelodau newydd a diolch i'r aelodau presennol am adnewyddu. Rydym wedi cael cychwyn llwyddiannus iawn i'r flwyddyn newydd gyda nifer o fusnesau newydd yn ymuno ac edrychaf ymlaen at gyfarfod pob un ohonoch yn ystod ein cyfres o gyfarfodydd.

Rydym wedi ceisio cadw ein cyfraddau aelodaeth mor gystadleuol ag y bo modd a chydag aelodaeth blwyddyn yn dechrau ar £48 ar gyfer 2 le ym mhob un o'n 4 prif ddigwyddiad, gall busnesau newydd ymuno heb dorri'r banc. Po fwyaf nifer yr aelodau, y gorau fydd y cyfleoedd i bawb, felly mae werth annog busnesau y mae gennych gysylltiad â nhw, neu fusnesau rydych yn eu hoffi, i ymuno.

## Dyddiad i'ch dyddiadur

21/03/19 - Llais Busnes Torfaen - 5pm

20/06/19 - Llais Busnes Torfaen - 5pm

19/09/19 - Llais Busnes Torfaen - 5pm

05/12/19 - Llais Busnes Torfaen - 5pm



**Greenmeadow Golf and Country Club,  
Cwmbran**

## Ein Digwyddiad Nesaf

Mae ein cyfarfod cyntaf ar Ddydd Iau 21ain Mawrth, 5pm Clwb Golf Greenmeadow, ac rydym yn falch iawn o gyhoeddi bod Cyfrifwyr a Chynghorwyr Treth Green & Co yn noddi ein digwyddiad cyntaf yn 2019.

Wedi ennill gwobr Practis Canolig ei Faint y Flwyddyn yn y DU, mae gan Green & Co ddau brif nod ar gyfer eu cleientiaid, i'w helpu i gyflawni eu hamcanion a rhoi cyngor iddynt i ostwng eu bil treth.

Pwnc y rhifyn hwn yw "cyllid a bod yn barod at y dyfodol" a fydd, o ystyried yr hinsawdd wleidyddol anrhwngwladwy hon, mor amserol ag y gall fod.

Rwy'n ddiolchgar i Green and Co sy'n noddi ein digwyddiad ym mis Mawrth ac a fydd yn siarad am drefniadau newydd 'gwneud trethi'n ddigidol' y llywodraeth (hefyd yn cael ei alw'n 'gwneud trethi'n anodd' gan rai) er rwy'n siŵr y medrent ein harwain trwy'r picil.



**Ashley Harkus**

**Cadeirydd, Llais Busnes  
Torfaen**

## Ddim yn aelod? Beth am ymuno â ni a dod i'r digwyddiad?

**Ffoniwch 01633 648644**

**E-bost: [info@southwalesbusiness.co.uk](mailto:info@southwalesbusiness.co.uk)**

**Cliciwch ar y ddolen ganlynol:**

**<http://bit.ly/TBV-business-club-cy>**

Gyda Gwneud Trethi'n Ddigidol rownd y gornel, bydd Green & Co yn rhoi esboniad o'r hyn a fydd yn newid a diweddariad ar ôl Cyllideb y Gwanwyn eleni.

Bydd dwy rownd o rwydweithio wedi'i hwyluso, ac yna rhwydweithio anffurfiol dros y bwffe.

Galla aelodau o Llais Busnes Torfaen ddod â baner sbonc gyda nhw hefyd – a wnewch chi nodi ar y ffurflen bwcio electronig os fyddwch yn dod ag un gyda chi.

**ARCHEBWCH EICH LLE yn y digwyddiad hwn:**

**<http://bit.ly/tbv-mawrth-2019>**

## YN Y RHIFYN HWN:

**TUDALEN 4**  
**Gwneud Treth yn**  
**Ddigidol**

**TUDALEN 5**  
**Paratoi Busnes ar gyfer**  
**Brexit?**

**TUDALEN 7**  
**Sesiynau galw-i-mewn**  
**Busnes Torfaen**

# A fydd Gwneud Trethi'n Ddigidol yn gwneud Trethi'n Anodd?

Mae'r dyddiad 1af Ebrill 2019 yn dod yn nes. Sut ddylai perchnogion busnes deimlo am Wneud Trethi'n Ddigidol (MTD)? A yw'n rhywbeth i'w ofni? Neu oes yna elfennau cadarnhaol i'w croesawu wrth i ni symud tuag at yr oes newydd hon o drethi busnes arlein.

MTD yw'r newid mwyaf i'r system drethi yn y DU am lawer o flynyddoedd. Y nod yw rhoi system fwy effeithiol, effeithlon i fusnesau sy'n haws ei defnyddio ac yn darparu gwybodaeth mewn amser go iawn, gan ganiatáu cymryd penderfyniadau cywirach. Erbyn 2020, bydd system ddigidol lawn yn cael ei defnyddio ar gyfer pawb sy'n talu trethi. Mae'n golygu y gellir talu trethi unrhyw adeg o'r dydd a'r nos ac ar unrhyw bwynt yn y flwyddyn. Dyma'r weledigaeth ar gyfer system drethi fodern a ddylai fod yn hygyrch i bawb. Yn gryno, mae'n newid sut mae busnesau'n talu eu trethi i CThEM.

Mae MTD yn dechrau ym mis Ebrill eleni i fusnesau sydd wedi eu cofrestru ar gyfer TAW a chyda throsiant o fwy na £85,000. Mae'n parhau i fod yn wirfoddol ar gyfer busnesau dan y trothwy TAW tan 202 ar y cynharaf.

Mae pedair egwyddor MTD wedi eu nodi gan CThEM:

## Cadw gwybodaeth

bydd ond angen i dalwyr trethi ddarparu i CThEM yr wybodaeth y mae wirioneddol ei hangen na fedr ei chael o ffynonellau eraill. Gellir gweld cofnodion digidol ar unrhyw adeg gan y talwr trethi a'u hadolygu er mwyn cael cywirdeb. Bydd cadw gwybodaeth arlein fel hyn yn sicrhau bod pob talwr trethi yn derbyn gwasanaeth wedi ei deilwra'n unigol.

## Amser go iawn

bydd cyfrifiadau trethi'n cael eu gwneud mewn amser go iawn. Mae hyn yn golygu y gellir lleihau nifer y camgymeriadau a bydd talwyr trethi yn gwybod mwy am eu sefyllfa drethi, o ran trethi sy'n daladwy nawr neu unrhyw hawliau. Dylai hyn leihau faint o drethi sy'n cronni neu ad-daliadau sydd i'w gwneud.

## Cyfrif sengl

nid yw erioed wedi bod yn bosibl gweld eich holl ddyledion a'ch hawliau mewn un lle o'r blaen. Mae hon yn ddarpariaeth newydd a dylai roi darlun cynhwysfawr i gwsmeriaid o sefyllfa eu busnes.

## Rhyngweithiad digidol gyda CThEM

trwy gyfrwng cyfrif digidol y cwsmer ei hun; bydd modd rhyngweithio gyda CThEM ar unrhyw adeg o'r dydd sy'n gyfleus i'r cwsmer.

## Felly, beth sydd angen ei wneud i baratoi?

Y gwaith paratoi allweddol yw symud cofnodion a gedwir i system ddigidol sy'n gydnaws gyda'r lanlwytho sydd ei angen gan CThEM. Mae hyn yn debyg i fynd i'ch cyfrif banc arlein.

Rhaid i'r feddalwedd a ddefnyddiwch alluogi cyfathrebu dwyffordd. Bydd angen symud prosesau gweithio â llaw a chadw cofnodion ar daenlenni i ddull digidol o weithio. Mae cyngor ar gael gan CThEM o ran pa gyflenwr meddalwedd a fyddai'n addas i'ch busnes chi. Bydd angen i chi adolygu prosesau presennol a hyfforddi staff i ddefnyddio'r feddalwedd newydd.

Gall hyn ymddangos fel tasg feichus, ond bydd symud i system ddigidol yn golygu bod gennych well dealltwriaeth o sefyllfa eich busnes gan gynnwys pa hawliau a dyledion sydd gennych. Dylai'r newidiadau hyn olygu llai o waith papur, gweld eich dyledion trethi yn well ac, o bosib gyda mwy o drefnu, cyfle i leihau eich bil trethi.

Os ydych eisiau parhau i ddefnyddio taenlenni, yna bydd meddalwedd pontio yn eich galluogi i lanlwytho eich cyfrifiadau TAW i CThEM.

Trwy fod yn drefnus gyda'r gwaith paratoi a'ch prosesau, gellir arbed llawer o amser ar ddiwedd y flwyddyn yn casglu gwybodaeth a didoli cofnodion. Trwy gael yr holl wybodaeth mewn un lle, medrwyh gynllunio yn well ar gyfer eich bil trethi a monitro llif arian. Yr allwedd yw bod yn barod yn y ffordd briodol o'r cychwyn.

Mae cyfrifwyr megis Green & Co yn hapus i gynnig cyngor a chymorth i unrhyw fusnes nad yw'n sicr sut y dylai gynllunio ar gyfer MTD. Mae ganddynt yr wybodaeth arbenigol a'r dolennau meddalwedd i'ch galluogi i symud yn llyfn i'r system newydd hon o gadw cofnodion arlein. Mae Green & Co yn argymhell defnyddio Xero ac maent yn bartneriaid Xero Gold, sy'n caniatáu i gleientiaid gael cymorth bob cam o'r ffordd.



# Troi Treth yn Ddigidol: chwalu 7 o'r mythau cyffredin

Wedi'ch drysu ynghylch Troi Treth yn Ddigidol? Peidiwch â phoeni, dyma ganllaw cyflym i daflu rhywfaint o oleuni ar y newid mwyaf i dreth yn y DU ers cenhedlaeth a chwalu rhai o'r mythau y gallech fod wedi eu clywed.

## Myth 1. Mae Troi Treth yn Ddigidol wedi ei ohirio

Mae cyflwyno camau i Droï Treth yn Ddigidol wedi hen gychwyn a bydd cam allweddol cyntaf y fenter, Troi Treth yn Ddigidol gyfer TAW, yn dechrau ar 1 Ebrill eleni. O dan Troi Treth yn Ddigidol ar gyfer TAW, bydd yn rhaid i fusnesau â throsiant uwchlaw'r trothwy TAW gadw cofnodion digidol a chyflwyno ffurflenni TAW chwarterol gan ddefnyddio meddalwedd cydawns.

Mae CThEM hefyd wedi dweud y bydd yn ceisio ehangu cwmpas Troi Treth yn Ddigidol i gynnwys Treth Incwm a Threth Gorfforaeth o 2020.

## Myth 2. Mae Troi Treth yn Ddigidol yn hynod o amhoblogaidd

Mae newid mor fawr â Throi Treth yn Ddigidol yn sicr o ennyn safbwyntiau cryf ar bob ochr; fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pobl yn teimlo'n bositif am y posibilrwydd o gael system dreth ddigidol newydd. Yn arolwg FreeAgent's 2017 i berchnogion busnesau bach sydd eisoes wedi digideiddio'u system cadw cyfrifon, dywedodd bron i hanner y rhai a ymatebodd eu bod yn teimlo'n bositif am Droï Treth yn Ddigidol, o gymharu ag 11% yn unig a deimlai'n negyddol.

## Myth 3. Bydd system treth ddigidol yn rhy dechnegol o lawer i'r mwyaf-rif o bobl

Mae miliynau o fusnesau 'eisoes yn rheoli'u treth ar lein gyda 99% o ffurflenni TAW, 98% o ffurflenni Treth Gorfforaeth ac 86% o ffurflenni Hunanasesu yn cael eu cyflwyno ar lein ar hyn o bryd.

Hyd yn oed os ydych chi'n un o'r 14% nad ydynt yn cyflwyno eu ffurflenni treth Hunanasesu ar-lein, mae Cyllid a Thollau EM wedi addo negeseuon o anogaeth, cyngor a chymorth trwy gydol yr amser i sicrhau bod llywio trwy eich cyfrif treth ddigidol yn gam mor syml â phosib. Mae cyfle i gynnal sgwrs fyw ar y we eisoes ar gael trwy eich cyfrif treth ddigidol felly gallwch chi sgwrsio â CThEM ar adeg sy'n addas i chi, a gobeithio na fydd rhaid i chi wrando ar y gerddoriaeth ddychrynlyd honno ar y dyddiad cau fyth eto.

**Ystyried gwneud trefniadau i Droï Treth yn Ddigidol? Mae meddalwedd cyfrifo FreeAgent sy'n gydnaws â Throi Treth yn Ddigidol ar gael am ddim i gwsmeriaid bancio busnes NatWest.**

## Myth 4. Mae fy nhaenlen cystal ag unrhyw feddalwedd treth ddigidol

Mae taenlenni'n wych ar gyfer rhai tasgau, ond ydych chi erioed wedi rhoi cynnig ar feddalwedd cyfrifo a chymharu'r ddau? Yn fuan, fe welwch fod system gyfrifo pwerus yn mynd ymhell y tu hwnt i unrhyw beth y gall hyd yn oed y daenlen fwyaf cymhleth ei reoli.

Gallai eich taenlen hefyd fod yn eich bwydo â gwybodaeth ffug. Yn ôl ymchwil y farchnad gan MarketWatch, mae 88% o daenlenni yn cynnwys gwallau ac mae yna ddigon o straeon erchyll gan gwmnïau mawr fydd yn debygol o achosi pryder. Gyda chywirdeb ffigurau ariannol yn gonglfaen i unrhyw fusnes da, a ydych chi am gymryd risgiau o ddirifri?

## Myth 5. Bydd CThEM yn darparu meddalwedd y gallaf ei ddefnyddio, am ddim

Mae CThEM wedi cadarnhau na fydd yn darparu meddalwedd yn uniongyrchol. Mae hyn yn golygu mai eich cyfrifoldeb chi yw dod o hyd i ateb cyfrifo digidol sy'n gweithio i'ch busnes chi. Gydag ychydig iawn o amser ar ôl cyn i chi orfod newid i gadw cofnodion digidol i Droï Treth yn Ddigidol ar gyfer TAW, ac ychydig dros flwyddyn ar gyfer Treth Incwm a Threth Gorfforaeth, nawr yw'r amser i ddechrau chwilio.

## Myth 6. Mae Troi Treth yn Ddigidol yn golygu y bydd angen i mi gadw cofnodion ychwanegol

Gan mai nod Troi Treth yn Ddigidol yw symleiddio system dreth y DU i bawb sy'n gysylltiedig, ni fydd angen i fusnesau gadw mwy o gofnodion nag y maent yn ei wneud eisoes. Mae CThEM wedi cadarnhau hyn, gan ychwanegu y bydd digido cofnodion busnes yn cyfrannu at 'leihau'r pwysau ar fusnesau o ryw £400m. Gyda'r nod hwn mewn golwg, byddai gorfodi busnesau i gadw cofnodion ychwanegol yn wrthgynhyrchiol.

## Myth 7. Mae cadw cofnodion digidol yn mynd i fod yn ffwdan anferth

Yn arolwg FreeAgent 2017 ar gyfer perchnogion busnesau bach, dywedodd cwsmeriaid bod newid i feddalwedd cyfrifo FreeAgent wedi arbed diwrnod y mis iddynt ar gyfartaledd, o gymharu â'u dull blaenorol o gadw cyfrifon. Dywedodd naw allan o ddeg o'u cwsmeriaid hefyd bod defnyddio FreeAgent yn rhoi tawelwch meddwl iddynt o ran rheoli cyllid eu busnes.

Mae'n siŵr o gymryd ychydig o amser i ddod i arfer â meddalwedd newydd ond pan fyddwch yn gwneud hynny byddwch yn elwa ar y manteision. Mae gallu gweld eich rhwymedigaethau treth yn cronni dros amser yn rhwystro unrhyw bethau annisgwyl funud olaf, tra bod llawer o'r rhannau eraill o weinyddu busnes dyddiol, fel mynd ar drywydd anfonebau di-dâl, yn awtomataidd. Ar hyn o bryd mae FreeAgent hefyd yn galluogi masnachwyr unigol a chyfarwyddwyr cwmni cyfyngedig i lenwi a ffeilio eu ffurflen dreth Hunanasesiad yn uniongyrchol i CThEM o'r feddalwedd.

# Porth Brexit Busnes Cymru

## Cael eich busnes yn barod ar gyfer Brexit

### Pa mor barod yw eich busnes?

Bydd y pecyn hwn yn eich tywys drwy chwe maes busnes allweddol:

- 1.Strategaeth a Gweithrediadau Busnes
- 2.Arloesi
- 3.Gwerthu a Marchnata
- 4.Allforio
- 5.Rheoli Pobl
- 6.Cyllid

Dim ond pedwar cwestiwn sydd ym mhob maes i asesu parodrwydd eich busnes ar gyfer Brexit; mae'r wybodaeth yn cael ei diweddarau'n rheolaidd i roddi'r darlun newidiol i chi bob amser.

Byddwch yn derbyn adroddiad o'ch asesiad a bydd cymorth ac arweiniad pellach ar gael i chi.

### Cronfa Cydnerthedd Brexit gan Lywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio'n ffurfiol Gronfa Cydnerthedd Brexit £1 filiwn o bunnau sydd ar gael i fusnesau Cymru, i'w helpu nhw i addasu i'r newidiadau yn economi Cymru ar ôl Brexit.

Mae Busnes Cymru yn cynnig cyfle i fusnesau cymwysedig i wneud cais am gyllid o rhwng £10,000 a £100,000 i ddatblygu capasiti, cadw cystadleugarwch a helpu i ddiogelu swyddi.

#### I wneud cais, rhaid i fusnesau:

- Fod wedi cofrestru i fasnachu yng Nghymru.
- Cofrestru gyda Busnes Cymru a chwblhau'r (<https://businesswales.gov.wales/brexit/>) wrth wneud cais
- Medru dangos y bydd y cyllid yn cyfrannu tuag at ddiogelu swyddi
- Wedi bod yn masnachu am 12 mis neu fwy ar ddiwrnod gwneud y cais

I gael rhagor o wybodaeth ac i wneud cais, ffoniwch 03000 6 03000 lle byddwch yn siarad gyda chynghorydd i gwblhau'r broses o wneud cais.

Mae Cronfa Cydnerthedd Brexit yn agored i geisiadau hyd at 31ain Mawrth 2020, os yw'r cyllid yn caniatáu.

### Cyngor ar Frexit-heb-gytundeb ar gyfer busnesau

Mae'r Adran ar gyfer Gadael yr Undeb Ewropeaidd wedi cyhoeddi canllawiau i fusnesau yn esbonio eu hymrwymiaid cyfreithiol os bydd Brexit yn digwydd heb gytundeb. Mae'r canllawiau yn cynnwys pynciau megis cyllid UE, allforio, cludiant, rheoliadau busnes, hawliau cwsmeriaid a hawliau yn y gweithle.

#### Mae mwy am y canllawiau i'w weld yn:

<https://www.gov.uk/government/collections/how-to-prepare-if-the-uk-leaves-the-eu-with-no-deal>

### Digwyddiad Cydnerthedd Brexit Ydd Mawrth 12fed Mawrth am 8am

Yn Swyddfeydd Cyffredinol Blaenau Gwent, Steel Works Road, Glyn Ebwy, Blaenau Gwent.

Bydd Siambr Fasnach De Cymru, ynghyd â Busnes Cymru a Llywodraeth Cymru, yn cynnal digwyddiad wedi'i arwain gan banel gydag arbenigwyr i'ch helpu chi drwy broses Brexit. Cewch wybod pa gymorth sydd ar gael i chi. Mae'n rhad ac am ddim i fynychu ond mae'n hanfodol cofrestru ymlaen llaw. <https://southwaleschamber.co.uk/event/brexit-resilliance-event/>



# Rhyddid neu Gaethwasiaeth?

Matt Preece, o Business Doctors, yn ysgrifennu am ganfod rhyddid trwy wneud y mwyaf o werth.

## Dywedodd George Orwell, 'Freedom is slavery.'

Nid yw hyn yn fwy gwir yn unlle nag ym myd busnes. Mae sefydlu cwmni newydd yn golygu bod â ffydd. Ac yn aml, y tu ôl i hynny mae dymuniad am ryddid: rhyddid rhag caethiwed y diwrnod 9-5; rhyddid rhag cael eich micro-reoli; rhyddid rhag dilyn cyfeiriad rhywun arall. Mae dianc i fyd sy'n cael ei reoli gan eich uchelgais chi, lle medrwyd brofi cyffro cymryd risg; cyffro sy'n dod o adeiladu rhywbeth newydd; teimlad gwirioneddol foddhaus o gyflawni rhywbeth, yn medru bod yn ddeniadol dros ben.

Yn olaf, yn eich breuddwydion, ar ôl taith fusnes werth chweil, rydych yn cyrraedd eich cyrchfan, yn gwerthu'r cwmni ac ymdeol i'r haul. Fodd bynnag, cyn i hyn ddigwydd, rhaid i chi weithio ar y busnes cyn i'r busnes weithio i chi. Yn aml, gall hyn arwain atoch chi, fel y perchennog, yn gweithredu fel popeth i bawb. Rydych yn gyfrifol am gyllid, marchnata, llunio polisi, systemau a phrosesau, gwefan, cyfryngau cymdeithasol, gwasanaeth cwsmeriaid – mae'r rhestr yn mynd yn ei blaen ac yn ei blaen...

Ac yna mae rhwydweithio/ Mae'n beth braf i'w wneud. Weithiau mae'n werthfawr; weithiau ddim. Mae'n mynd â chi allan o'r swyddfa. Ond mae'n cymryd llawer iawn o amser ac mae cymaint o bethau eraill i'w gwneud.

Rydych yn cyrraedd pwynt lle mae eich refeniw yn cyrraedd lle gwastad. Rydych eisiau prifio ond nid oes gennych amser i ddellio â'r mater. Rydych yn llawer rhy brysur. Mae'r rhyddid roeddech yn breuddwydio amdano wedi hen fynd. Yn hytrach, rydych yn cael eich cyfyngu gan gyfrifoldebau beunyddiol, wedi blino'n lân, yn methu cysgu oherwydd poeni am beth i'w wneud nesaf. Ar y pwynt hwn, nid chi sy'n rheoli bellach. Mae eich cwmni fel ceg farus yn gofyn am fwy o fwyd drwy'r amser. Y cwmni sy'n rheoli, nid chi. Mae angen i bethau newid.

Yn anffodus, rydych wedi eich gorfodi i ddewis. Medrwyd ganolbwyntio ar dyfu'r busnes trwy werthu mwy o gynnyrch neu wasanaethau, llogi staff, dysgu dirprwyo neu gallech benderfynu gwerthu'r cwmni. Y naill ffordd neu'r llall mae angen i chi wneud y mwyaf o'i werth.

Ond - ac mae'n ond mawr - rydych yn canfod nad yw'r busnes werth yr hyn roeddech chi'n ei feddwl. A'r rheswm? Chi. Yn naturiol, chi yw'r both, ond yn anffodus rydych wedi dod yn sbôcs hefyd. Heboch chi, mae'r busnes yn chwalu'n ddarnau. Felly, os nad ydych chi yno, nid yw werth rhyw lawer. Os yw werth unrhyw beth.

Felly beth nesaf? Wel, mae gwneud y mwyaf o werth yn eich galluogi chi i adfer eich rhyddid personol, y rhyddid i ddewis os ydych yn mynd i dreulio eich holl amser yn gyrru llwyddiant y busnes, canfod mwy o amser i'w dreulio gyda'r teulu neu hamddena neu – sibrydwch hyn – cael gwyliau, neu yn wir os byddwch yn cymryd y penderfyniad i werthu.



Y 'beth' yw'r rhan hawdd. Mae angen i chi dyfu, gwella eich llif arian a chynyddu elw, gan gofio wrth gwrs nad yw elw bob amser yn cyfateb i werth. Mae angen i chi alinio gyda'ch cwsmeriaid mwyaf gwerthfawr, canolbwyntio ar refeniw adnewyddadwy a gwneud yn siŵr nad yw'r cynnydd neu'r gwasanaethau yn dibynnu arnoch chi yn unig. Mae angen i'ch cwmni fod yn hunan-ddibynnol, ddim yn ddibynnol ar unrhyw gwsmer, gweithiwr neu gyflenwr penodol. Gyda'r senario honno, rydych nid yn unig yn ychwanegu gwerth, rydych hefyd yn delio gyda chydbwyso gwaith/bywyd; cael amser i'w dreulio gyda'r teulu a'r diddordebau hynny roeddech yn eu mwynhau yn y gorffennol.

Mae'r 'sut' yn fwy cymhleth. Yn rhy aml, mae'n gamgymeriad gor-addasu eich cynnyrch neu wasanaeth fel ei fod yn addas i bob cwsmer. Efallai ei fod yn ymddangos yn syniad da ymateb i'r galw gan gwsmer ond mae gwneud hynny yn golygu eich bod yn lledaenu eich hun ormod; medrwyd golli golwg ar eich syniad gwreiddiol, gwahanol, eich raison d'être. Gwell gwerth llai o stff i fwy o bobl. Bydd hyn yn rhoi mwy o reolaeth i chi dros brisio ac, yn y pen draw, maint yr elw a mwy o arian i farchnata. Wedyn, mae sicrhau cwsmeriaid hapus yn deillio, ynghyd â lefelau mesur a meincnodi boddhad.

Felly, yn hytrach nag aros am y pwynt hwnnw a grybwyllwyd yn gynharach, cymerwch afael yn y cwmni a chymryd rheolaeth yn ôl nawr. Wedyn, mae gennych opsiynau clir; rhai rydych chi'n eu dewis, nid rhai sy'n cael eu gorfodi arnoch.

Dyna ble mae'r rhyddid gwirioneddol.

# Yr Isafswm Cyflog Gwladol 2019

Yr Isafswm Cyflog Gwladol yw'r isafswm cyflog yr awr y mae gan weithiwr yr hawl i dderbyn yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cyfraddau yma'n cael eu hadolygu bob blwyddyn gan y llywodraeth ar ôl cyngor gan y corff annibynnol, y Comisiwn Cyflogau Isel. Fel cyflogwr bydd y newidiadau yma'n effeithio sut rydych yn talu eich staff o Ebrill 2019.



Er enghraifft bydd gweithwyr 25 oed a throsodd yn cynyddu o £7.83 i £8.21 yr awr.

Mae mwy o wybodaeth yn <https://www.gov.uk/national-minimum-wage-rates>

Ers 2010 mae'r isafswm cyflog wedi cynyddu 38% i weithwyr 25 oed a throsodd, felly mae'n bwysig cynllunio ymlaen llaw ar gyfer y newidiadau. Efallai bydd angen i chi edrych eto ar faint rydych chi'n talu am y nwyddau a'r gwasanaethau yr ydych yn eu darparu, neu edrych ar arbedion neu fesurau effeithlonrwydd yn rhywle arall yn eich busnes.

# Cynlluniau Pensiwn Cofrestru Awtomatig

Bydd cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer y rheiny sydd mewn cynlluniau pensiwn cofrestru'n awtomatig hefyd yn cynyddu, a bydd angen i gyflogwyr gyfrannu o leiaf 3% gyda'r cyfraniadau i gyd yn gyfanswm o 8%.

**O Ebrill, bydd angen i'r cyflogwr gyfrannu lleiafswm o 3% gyda chyfanswm y cyfraniadau yn 8%, sy'n golygu bydd rhaid i'r cyflogai gyfrannu'r 5% eu hunain.**

Wrth gwrs, gall cyflogwyr ddewis cyfrannu mwy na'r lleiafswm o 3% os ydyn nhw'n dymuno, cyhyd ag y bo cyfanswm y cyfraniadau'n 8%.

Gyda'r cynnydd yma mewn costau, oeddech chi'n gwybod bod modd i gyflogwyr hawlio hyd at £3,000 y flwyddyn yn ôl o'u biliau Yswiriant Gwladol os ydyn nhw'n gymwys ar gyfer Lwfans Cyflogaeth?



Gellir hawlio arian o'r fath yn ôl hyd at flwyddyn dreth 2014/15 os nad yw wedi ei hawlio o'r blaen ac mae hawl i chi wneud. Felly, edrychwch ar y posibiladau yn <https://www.gov.uk/claim-employment-allowance>

## Sesiynau Busnes Torfaen



## Ydych chi'n fusnes heb ddechrau, newydd ddechrau neu'n fusnes mewn bodolaeth?

Pam na ddewch chi i'n sesiynau cefnogi busnesau i sicrhau llwyddiant i'ch busnes gyda Thîm Economi a Mentergarwch Torfaen?

Cynhelir sesiynau yn Llyfrgell Cwmbân, Canol Tref Cwmbân, NP44 1XQ ar y dyddiadau canlynol rhwng 10:00am a 2:00pm.

19  
Mawrth

9  
Ebrill

14  
Mai

11  
Mehefin

9  
Gorffennaf

I gael rhagor o wybodaeth, e-bostiwch: [info@southwalesbusiness.co.uk](mailto:info@southwalesbusiness.co.uk)  
Ffoniwch: 01633 647800 [www.southwalesbusiness.co.uk](http://www.southwalesbusiness.co.uk)

# Cwrdd â'r Aelod

Beth yn union y mae ysgrifwraig llawrydd yn ei wneud a sut allaf i helpu eich busnes? Dyma'r cwestiynau sy'n codi'n aml. Rydw i'n darparu cynnwys o ansawdd a gwaith copi i helpu busnesau i gysylltu â'u cwsmeriaid. Mae pob busnes yn ymwybodol o'r angen i greu adnabyddiaeth o'r brand, delwed-dau trawiadol a phresenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol mewn marchnad sy'n fwy ac y fwy cystadleuol. Serch hynny mae cynnwys y testun yn aml yn cael ei anwybyddu. Rydw i'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau ysgrifenedig gan gynnwys cynnwys i wefanna wedi ei optimeiddio ar gyfer peiriannau chwilio, blogiau ac erthyglau.

Dechreuais fy musnes yn Rhagfyr 2017. Cyn gweithio'n llawrydd, roeddwn yn athrawes Saesneg mewn ysgol uwchradd ac yn bennaeth yr adran Saesneg. Mae gen i Radd BA mewn Saesneg a Gradd Meistr mewn Addysg. Mae fy erthyglau i gylchgronau wedi ymddangos mewn amrywiaeth o gyhoeddiadau gan gynnwys 'The Abergavenny Focus' a 'Living Wales'. Rydw i hefyd yn ysgrifennu colofn fisol reolaidd am gerdded sy'n cael ei chyhoeddi yng nghylchlythyr 'Bwrdd' Cymru ym 'Mensa Magazine'.

Mae categori awyr agored fy mlog ([www.rachaelbird.com](http://www.rachaelbird.com)) ar wefan cylchgrawn TGO (The Great Outdoors). Rhwydwaith Blogwyr TGO yw rhwydwaith gorau'r DU ar gyfer blogiau am yr awyr agored.

**Hoffem ddiolch i'n cyfranwyr:**



**Busnes | Business  
Cymru | Wales**



Gallaf ysgrifennu'r testun ar gyfer eich blogiau, erthyglau, taflenni, llyfrynau a'ch gwefan i'ch cefnogi chi wrth hybu'ch busnes fel nad oes rhaid i chi boeni am gael hyd i'r amser yn ystod eich diwrnod prysur. Rwy'n cynnig amrywiaeth o becyn-nau sy'n gallu cael eu haddasu i gwrdd â'ch anghenion.

Rydw i hefyd yn gallu ysgrifennu areithiau ar gyfer eich cyflwyniadau neu sgriptiau ar gyfer fideos marchnata. Os ydych chi'n ysgrifennu eich cynnwys eich hun ond am gael barn rhywun arall, rydw i'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau prawf ddarllen a golygu.

Pan fyddwch yn gweithio gyda fi, byddwch yn delio â fi'n uniongyrchol. Does yna ddim strwythur cyfathrebu cymhleth. Felly mae'r broses yn syml o'r dechrau i'r diwedd.

Os oes gennych chi ddiddordeb yn yr arbenigedd ar ysgrifennu sydd gen i i'w gynnig, cysylltwch â fi'n ddi-oed i drafod eich gofynion. Gallaf roi dyfynbris i chi am ddim.

Rydw i yn y Fenni ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda busnesau lleol i'ch helpu chi i lwyddo.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Rachael Bird – Ysgrifwraig Llawrydd.

Rachael Bird B.A. (Hons), M. Ed.  
07789 274808  
[enquiries@rachaelbird.com](mailto:enquiries@rachaelbird.com)  
[www.rachaelbird.com](http://www.rachaelbird.com)



**Rachael Bird**

Ysgrifwraig Llawrydd



## Aelodau newydd

**Advanta Group Ltd**

<https://www.advantamanufacturing.com>

**Penrhiwgyngi Farm Bakery**

<https://www.facebook.com/penrhiwgyngi/>

**RWR Recruitment**

<https://www.rwrrecruitment.co.uk/>

**Sweet Remedies**

<https://www.sweetremedies.co.uk/>

**The Vintage Vegan Catering Company**

<http://thevintagevegancateringcompany.com/>

**Ultimate Tinting South Wales**

<http://www.ultimatetinting.co.uk>

**WeKlean**

<https://www.weklean.co.uk/>

**Wize Virtual Admin**

[www.wizevirtualadmin.co.uk](http://www.wizevirtualadmin.co.uk)

**Xcel Xpert**

[www.xcelxpert](http://www.xcelxpert)